# AD-DREFNU YSGOLION

# ASESIADAU EFFAITH STATUDOL

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## CYNNIG I GREU YSGOL ARDAL NEWYDD AR SAFLE NEWYDD YN NYFFRYN AERON

## Dyddiad: Mehefin 2019

# ASESIAD O'R EFFAITH GYMUNEDOL AC AR Y GYMRAEG

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i lenwi holiadur at ddibenion asesu defnydd presennol a defnydd cymunedol yr ysgolion a manylion cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach.

Bydd y cynnig i greu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron, os y cymeradwyir gan y Cyngor, yn arwain at gau Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felinfach.

# Proffil Ardal & Map Ward a gafwyd gan Swyddfa Nomis Ystadegau Gwladol

Mae ysgol **CIliau Parc** wedi'u lleoli ym Mhlwyf Ciliau Aeron gyda phoblogaeth o 1,974 o drigolion yn ôl cyfrifiad 2011. Mae gan y ward oedran gyfartaledd o 43.9, gyda dim ond 10.1% o'r boblogaeth o dan 10 oed.




| | Persons | |
|---|---|---|
| | Ciliau Aeron Ward (as of 2011) | |
| | count | % |
| All usual residents | 1,974 | 100.0 |
| Age 0 to 4 | 94 | 4.8 |
| Age 5 to 7 | 70 | 3.5 |
| Age 8 to 9 | 36 | 1.8 |
| Age 10 to 14 | 120 | 6.1 |
| Age 15 | 17 | 0.9 |
| Age 16 to 17 | 50 | 2.5 |
| Age 18 to 19 | 48 | 2.4 |
| Age 20 to 24 | 90 | 4.6 |
| Age 25 to 29 | 75 | 3.8 |
| Age 30 to 44 | 339 | 17.2 |
| Age 45 to 59 | 426 | 21.6 |
| Age 60 to 64 | 185 | 9.4 |
| Age 65 to 74 | 241 | 12.2 |
| Age 75 to 84 | 136 | 6.9 |
| Age 85 to 89 | 32 | 1.6 |
| Age 90 and over | 15 | 0.8 |
| Mean Age | 43.9 | - |
| Median Age | 46 | - |

O'r boblogaeth, mae 98.9% yn cael eu categoreiddio fel Gwyn, gyda 49.8% yn nodi hunaniaeth Gymreig a 20.8% yn nodi hunaniaeth Seisnig. O'r trigolion, ganwyd 58.8% yng Nghymru a 36.9% yn Lloegr, gyda'r gweddill o thu allan i'r 2 wlad hyn. Mae 62.2% yn datgan eu bod yn Gristnogion, gyda 27.6% yn datgan dim crefydd, gyda'r gweddill yn nodi crefyddau eraill.

Mae ysgol **Felinfach a Dihewyd** wedi'u lleoli ym Mhlwyf Llanfihangel Ystrad gyda phoblogaeth o 2,037 o drigolion yn ôl cyfrifiad 2011. Mae gan y ward oedran gyfartaledd o 45.4, gyda dim ond 9.9% o'r boblogaeth o dan 10 oed.

**Age structure**

| | Persons | |
|---|---|---|
| | Llanfihangel Ystrad Ward (as of 2011) | |
| | count | % |
| All usual residents | 2,037 | 100.0 |
| Age 0 to 4 | 101 | 5.0 |
| Age 5 to 7 | 55 | 2.7 |
| Age 8 to 9 | 44 | 2.2 |
| Age 10 to 14 | 125 | 6.1 |
| Age 15 | 26 | 1.3 |
| Age 16 to 17 | 43 | 2.1 |
| Age 18 to 19 | 33 | 1.6 |
| Age 20 to 24 | 75 | 3.7 |
| Age 25 to 29 | 74 | 3.6 |
| Age 30 to 44 | 313 | 15.4 |
| Age 45 to 59 | 447 | 21.9 |
| Age 60 to 64 | 195 | 9.6 |
| Age 65 to 74 | 301 | 14.8 |
| Age 75 to 84 | 147 | 7.2 |
| Age 85 to 89 | 44 | 2.2 |
| Age 90 and over | 14 | 0.7 |
| Mean Age | 45.4 | - |
| Median Age | 49 | - |



O'r boblogaeth, mae 98.69% yn cael eu categoreiddio fel Gwyn, gyda 50.9% yn nodi hunaniaeth Gymreig a 18.9% yn nodi hunaniaeth Seisnig. O'r trigolion, ganwyd 57.2% yng Nghymru a 38% yn Lloegr, gyda'r gweddill o thu allan i'r 2 wlad hyn.

Mae 62.9% yn datgan eu bod yn Gristnogion, gyda 23% yn datgan dim crefydd, gyda'r gweddill yn nodi crefyddau eraill.

## Dynodi ysgolion a gwasgaru disgyblion

Nid yw Ceredigion yn gweithredu dalgylchoedd, ac mae gan rieni hawl i ddewis unrhyw ysgol yn y Sir. Fodd bynnag, dim ond os bydd disgyblion yn mynychu eu hysgol addas agosaf y bydd cludiant yn cael ei ddarparu.

## Pellter presennol a deithir gan ddisgyblion

Caiff yr ysgol ardal newydd ei leoli ar safle newydd o fewn ardal y dair ysgol. Nid oes modd cyfrifo'r pellter teithio ychwanegol ar hyn o bryd, hyd nes i'r cynnig gael ei gymeradwyo a bod safle newydd wedi ei ddiogelu'n ffurfiol.

## Holiaduron Cymunedol

Fel rhan o'r broses ymgynghori, anfonwyd holiaduron i'r Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned lleol i gael gwybod pa gyfleusterau a digwyddiadau oedd yn cael eu cynnal gan yr ysgol a'r effaith ar y gymuned. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

**Ymateb yr ysgolion:**

| | **Ysgol Felinfach** | **Ysgol Dihewyd** | **Ysgol Ciliau Parc** |
|---|---|---|---|
| Cyfleusterau cymunedol lleol cyfredol: | Swyddfa'r bost a siop, Garej, Neuadd bentref, Caeau Chwarae, Clwb Pêl-droed<br>Capel, Eglwys | Neuadd y pentref<br>Caeau chwarae<br>Eglwys<br>Capel<br>'Siop Shed' (siop fechan yr ysgol yw'r unig siop yn y pentref) | Neuadd Bentref – pwyllgor gweithgar iawn sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cael defnyddio'r neuadd pan mae angen – un diwrnod yr wythnos ar gyfer Ymarfer Corff.<br>Parc chwarae trwy law'r neuadd bentref<br>Dim busnes ynghanol y pentref heblaw am Westy Tyglyn Aeron a Gerddi Tyglyn. |
| Cyfleusterau / gwasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu cynnwys: | Clybiau allgyrsiol weithiau, yn dilyn ceisiadau wrth ddisgyblion yn ystod y flwyddyn.<br>Cyfarfodydd y CRhA.<br>Cyfarfodydd y Llywodraethwyr.<br>Boreau coffi i godi arian i elusennau. | Cyfarfodydd y CRhA<br>Cyfarfodydd y Llywodraethwyr<br>Clwb yr Urdd<br>Boreau coffi achlysurol i godi arian i elusennau<br>Clybiau allgyrsiol yn achlysurol yn ystod y flwyddyn ar gais y disgyblion | Clwb Croeso boreuol<br>Clwb Chwaraeon<br>Clwb Cyfrifiaduron<br>Clwb Urdd<br>Cyfarfodydd CRhA<br>Cyfarfodydd Llywodraethwyr |
| Lle arall ar gyfer cyfleusterau / gwasanaethau | Neuadd bentref<br>Theatr<br>Eglwys & Capel | Neuadd pentref<br>Capel/Festri | Neuadd pentref |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Materion diogelwch cymunedol ehangach | Na | Na | Sefyllfa diogelwch yn wael wrth i rieni adael a chasglu plant o'r ysgol.<br>Diffyg lle i barcio ceir a phroblemau traffig sylweddol yn achosi drwg deimlad ymysg cymdogion.<br>Dim swyddog croesi'r heol. |
| Gweithgaredd au ar ôl ysgol: | Rasys Blynyddol Sarn Helen.<br>Amryw o weithgareddau codi arian CRhA<br>Clybiau allgyrsiol yn achlysurol ar gais disgyblion yn ystod y flwyddyn.<br>Clybiau allgyrsiol achlysurol sy'n cael eu rhedeg gan gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd bellach yn mynychu Ysgol Gyfun Aberaeron gyda'u gwaith DC a Bagloriaeth Cymru yn y gymuned | Ffair Ysgol Flynyddol<br>Clwb yr Urdd<br>Clybiau allgyrsiol achlysurol yn ystod y flwyddyn ar gais y disgyblion<br>Gwahanol weithgareddau codi arian a drefnir gan y CRhA | Clwb yr Urdd<br>Clwb Chwaraeon<br>Clwb Cyfrifiaduron<br>Y cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg |
| Cyfleusterau cymunedol i ddysgu Cymraeg: | Na | Gwahanol ddiwrnodau cymunedol a drefnir gyda grŵp cymunedol preswylwyr hŷn y pentref (Y Gymdeithas) e.e. cyngherddau a phrynhawniau cymdeithasol | Mae'r ysgol yn trefnu diwrnodau cymunedol trwy ddefnyddio arian Y Siartr Iaith gyda henoed y pentref - te prynhawn a chyngerdd trwy gyfrwng y Gymraeg, prynhawn cymdeithasu a siarad Cymraeg trwy chwarae gemau, prynhawn i rieni gyda'r disgyblion er mwyn annog defnydd y Gymraeg. |
| Unrhyw faterion eraill i'w hystyried: | Mae disgyblion yr ysgol yn cyfrannu at y gymuned trwy gyngherddau, gwasanaethau Cristnogol, yn diddanu'r henoed ac yn cymryd rhan yn Eisteddfod flynyddol y pentref. | Mae gan yr ysgol rôl hollbwysig yn y gymuned: Mae disgyblion yr ysgol yn cyfrannu at y gymuned drwy gynnal gwasanaethau yn y capel a'r eglwys ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn.<br>Mae'r disgyblion yn diddanu trigolion y | Pryder ynghylch addasrwydd yr adeilad ar gyfer y nifer o ddisgyblion yn yr ysgol. Dim Neuadd yn yr ysgol.<br>Disgyblion yn cymryd rhan yn y Carnifal Pentref blynyddol.<br>Disgyblion yn cyfrannu at gystadlaethau sioeau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pentref yn y cyngerdd a'r Ffair Moes a Phryn flynyddol sy'n codi arian er mwyn cynnal neuadd y pentref.<br>Mae'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan yn Eisteddfod y pentref, ac mae sesiwn y prynhawn wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl i ddisgyblion yr ysgol. | Pentref Blynyddol. Disgyblion yn diddanu trigolion y pentref trwy gydol y flwyddyn pan ofynnwyd iddynt. Aelodau CFfI yn gweithio gyda'r ysgol e.e. noson Nadolig Carolau / Siôn Corn. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cystadlaethau CFfI achlysurol e.e. Trefniant pot / blodau gorau ar gyfer y Rali leol. |

**Ymateb y Cyngor Cymuned:**

| | Ward Ciliau Aeron | Llanfihangel Ystrad Ward |
|---|---|---|
| Cyfleusterau Cymunedau lleol cyfredol: | Neuadd Bentref – Cartref i gyfarfodydd sawl cymdeithas leol a'r Cyngor Cymuned. Llyfrgell anffurfiol. Mae disgyblion yr Ysgol Gynradd yn diddanu'r Clwb Cinio yn achlysurol ee. Ar Ddydd Gŵyl Dewi, y Pasg a'r Nadolig | Swyddfa'r Bost, Tafarn, Nifer o fusnesau lleol (Clunderwen Farmers Co-op, Volac, 2 Garej, Sensient, Daniel Jenkins a'i fab, Storfa Mansel Davies), Caeau Chwarae a Parc, Caeau Chwarae'r Ysgol, Neuadd Bentref, 2 Gapel a Festri<br>Eglwys a Neuadd yr Eglwys, Theatr Felinfach |
| Cyfleusterau / gwasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu cynnwys: | Defnyddir buarth yr Ysgol fel maes parcio dros dro pan cynhelir digwyddiadau yn y pentref | Ysgol Feithrin (Caban ar dir yr ysgol)<br>Defnyddir iard yr ysgol fel maes parcio dros dro yn ystod Gŵyl Bêl-droed Felinfach ac yn ystod gemau pêl-droed wythnosol. |
| Cyfleusterau/gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol: | Ni ddarperir unrhyw wasanaethau o'r math yma | Amherthnasol |
| Defnydd yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau neu feddygfeydd: | Cynhelir Eisteddfod yr Ysgol yn flynyddol | Defnyddir yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus os nad yw'r neuadd ar gael |
| Materion diogelwch cymunedol ehangach: | Na | Ysgol wedi ei lleoli ar yr A482 ac y mae angen sicrhau bod cyflymder traffig yn cael ei ostwng i 20 mya |
| Gweithgareddau ar ôl ysgol: | Na | Na |
| Cyfleuster cymunedol i ddysgu Cymraeg: | Na | Cynhelir holl weithgareddau'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ee. Cyngherddau, gwasanaethau tymhorol, Eisteddfodau |
| Unrhyw faterion eraill i'w hystyried: | Na | Na |

O'r ymatebion a dderbyniwyd mi ragwelir gall yr ysgol ardal effeithio ar wasanaethau neu weithgareddau cymunedol.

Bydd rhieni a disgyblion yr ysgol ardal yn cael eu cefnogi wrth gael eu hintegreiddio a byddant yn cydweithio er mwyn sefydlu pwyllgorau Ysgol newydd, clybiau ysgol a Chorff Llywodraethol newydd bydd yn cwmpasu ethos yr ysgolion bydd yn cau.

## Llwybr Diogel i’r Ysgol a’r Gymuned

Bydd llwybr diogel i’r ysgol yn ffurfio rhan o’r adeilad newydd wedi’i ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y gall disgyblion a rhieni gerdded yn ddiogel neu beicio i’r ysgol.

**Polisi Iaith Ysgolion Cyngor Ceredigion**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi gweledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru i weld miliwn o bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050, yn unol â 'Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg'.

Mae 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes' yn pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau'n orfodol hyd at 16 oed.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm hwn yn nodi'r canlynol:

"Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnig ffyrdd o fanteisio ar y cysylltiadau rhwng addysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, trwy annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio eu gwybodaeth am sut mae iaith yn gweithio yn Gymraeg, er enghraifft, yn Saesneg neu ieithoedd tramor modern. Wrth wneud hynny, gallant ddeall strwythur ieithoedd. Gall hyn, ynghyd â gwerthfawrogiad o eiriau a'u tarddiad, helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu brwdfrydedd a diddordeb mewn iaith."

Ar gyfer ysgolion yng Ngheredigion, mae addysgu Cymraeg a Saesneg naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn un o'r gofynion hanfodol ac yn adlewyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfredol.

Nod yr Awdurdod Lleol yw addysgu disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog wrth iddynt adael yr ysgol gynradd ac i ddatblygu'r gallu hwnnw yn ystod eu cyfnod uwchradd er mwyn dod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r uchelgais hwn yn unol â strategaeth gorfforaethol Cyngor Ceredigion.

**Ysgolion Cynradd**

Mae'r Polisi Iaith hwn yn ymestyn ar draws holl ysgolion cynradd y sir ac mae'n anelu at ddatblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd CA2. Yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, Cymraeg yw'r iaith asesu a ddefnyddir ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, mae parhad i ddatblygiad y disgyblion o ran eu sgiliau llafar (gwrando a siarad), sgiliau darllen ac ysgrifennu Cymraeg a sgiliau cyfatebol yn Saesneg.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 Sir Ceredigion. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn glir yn ei nod a'i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru.
- Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn ceisio sicrhau pwyslais priodol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ac mae'n credu'n gryf yn y gwerth addysgol o allu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg er budd pob disgybl. Mae'r Awdurdod Addysg yn datgan ei hun yn gadarn o blaid datblygu disgyblion sy'n hyderus ddwyieithog ym mhob un o ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion.
- Mae Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion (2008) yn allweddol i lwyddiant y ddarpariaeth ddwyieithog ac mae Polisi Iaith Ysgolion Ceredigion yn sail gadarn a diamwys ar gyfer Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020, a bydd darparu a gweithredu targedau ymarferol yn arwain at gynnydd mewn dwyieithrwydd ar bob lefel.
- Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn ceisio sicrhau bod cyd-destunau cyfoethog, perthnasol a chreadigol yn cael eu cynnig i blant a phobl ifanc (gan gynnwys datblygiadau TGCh a Chymhwysedd Digidol), gan eu galluogi i ymestyn a defnyddio eu sgiliau iaith. Mae cynnig cyfleoedd i wella sgiliau llafar (yn benodol) ar bob cam o'r daith addysgol yn elfen graidd er mwyn sicrhau siaradwyr rhugl a hyderus.
- Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, a bod ganddynt fynediad ato, wrth i'w plant a phobl ifanc ddatblygu ar hyd y llwybr/continwwm iaith.
- Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau'r Gymraeg yn ei ysgolion cynradd trwy fuddsoddiad a gwelliannau i'r ddarpariaeth, i greu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd.
- Bydd yr Awdurdod yn gweithio ar lefel ranbarthol i rannu adnoddau ac arbenigedd, ac yn annog cysylltiadau rhwng ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu iaith.
- Mae'r Awdurdod, trwy'r strategaeth hon, yn cyfrannu at ei ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg. Mae'n cyfrannu at nod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

- Mae'r cynllun hwn wedi'i blethu â Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.  Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn cytuno gyda'r farn mai'r system addysg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, ac o greu siaradwyr Cymraeg newydd.

**Categori Iaith**

| Enw'r Ysgol | Categori Iaith | |
|---|---|---|
| Ysgol Ciliau Parc<br><br>Ysgol Dihewyd<br><br>Ysgol Felinfach | Cyfrwng Cymraeg | Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn profi'r meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 ac fe'i dysgir trwy gyfrwng y Saesneg, ac efallai y bydd Saesneg yn cael ei ddefnyddio weithiau ar gyfer rhai agweddau ar rai pynciau. |

# SAFONAU

## Cyfnod Sylfaen

Yn y Cyfnod Sylfaen, asesir disgyblion mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2018, cyflawnodd y ganran ganlynol o ddisgyblion Ganlyniad 5+ mewn 'Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg':

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ciliau Parc** | 100% | **Dihewyd:** | 50% | **Felinfach:** | 100% |


**Ysgol Ciliau Parc**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALl/Ysgol:667/2285**


### Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

**Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig, o leiaf (Deilliant 5+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 |
| PSD | 100 | 94 | 92 | 100 | 98 | 97 | 100 | 96 | 95 |
| LCW | 100 | 89 | 88 | 100 | 95 | 94 | 100 | 92 | 91 |
| LCE | 0 | 89 | 85 | 0 | 96 | 92 | 0 | 92 | 88 |
| MDT | 100 | 91 | 88 | 100 | 95 | 92 | 100 | 93 | 90 |
| DCS | 100 | 86 | 84 | 100 | 94 | 91 | 100 | 90 | 87 |




### Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




**Nodiadau:**
1. - = Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT ill dau a naill ai LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.


**Ysgol Dihewyd**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALl/Ysgol:667/2288**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

**Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig, o leiaf (Deilliant 5+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 |
| PSD | 100 | 94 | 92 | 100 | 98 | 97 | 100 | 96 | 95 |
| LCW | 50 | 89 | 88 | 50 | 95 | 94 | 50 | 92 | 91 |
| LCE | 0 | 89 | 85 | 0 | 96 | 92 | 0 | 92 | 88 |
| MDT | 75 | 91 | 88 | 50 | 95 | 92 | 67 | 93 | 90 |
| DCS | 50 | 86 | 84 | 50 | 94 | 91 | 50 | 90 | 87 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




**Nodiadau:**

1. - = Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT ill dau a naill ai LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.


**Ysgol Felinfach**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALl/Ysgol:667/2289**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

**Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig, o leiaf (Deilliant 5+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 |
| PSD | 100 | 94 | 92 | 100 | 98 | 97 | 100 | 96 | 95 |
| LCW | 100 | 89 | 88 | 100 | 95 | 94 | 100 | 92 | 91 |
| LCE | 0 | 89 | 85 | 0 | 96 | 92 | 0 | 92 | 88 |
| MDT | 100 | 91 | 88 | 100 | 95 | 92 | 100 | 93 | 90 |
| DCS | 100 | 86 | 84 | 100 | 94 | 91 | 100 | 90 | 87 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




**Nodiadau:**

1. - = Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT ill dau a naill ai LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

## Cyfnod Allweddol 2

Yn seiliedig ar ddata 2018, cyflawnodd y ganran ganlynol o ddisgyblion Lefel 4+ mewn Cymraeg:

**Ciliau Parc**: 90.9% **Dihewyd**: 100% **Felinfach**: 89%


**Ysgol Ciliau Parc**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALl/Ysgol:667/2285**


### Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018
### Cyfnod Allweddol 2

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 |
| Saesneg | 100 | 86 | 89 | 100 | 92 | 94 | 100 | 89 | 91 |
| Cymraeg | 75 | 85 | 89 | 100 | 90 | 95 | 91 | 87 | 92 |
| Mathemateg | 100 | 89 | 90 | 86 | 92 | 93 | 91 | 90 | 92 |
| Gwyddoniaeth | 100 | 89 | 91 | 86 | 94 | 94 | 91 | 91 | 92 |
| DPC | 100 | 85 | 87 | 86 | 90 | 92 | 91 | 88 | 90 |




### Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.


**Ysgol Dihewyd**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALl/Ysgol:667/2288**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018
## Cyfnod Allweddol 2

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALl 2017 | Cymru 2017 |
| Saesneg | 100 | 86 | 89 | 0 | 92 | 94 | 100 | 89 | 91 |
| Cymraeg | 100 | 85 | 89 | 0 | 90 | 95 | 100 | 87 | 92 |
| Mathemateg | 100 | 89 | 90 | 0 | 92 | 93 | 100 | 90 | 92 |
| Gwyddoniaeth | 100 | 89 | 91 | 0 | 94 | 94 | 100 | 91 | 92 |
| DPC | 100 | 85 | 87 | 0 | 90 | 92 | 100 | 88 | 90 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.


**Ysgol Felinfach**
**Ceredigion**

**Rhif yr ALI/Ysgol:667/2289**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018
## Cyfnod Allweddol 2

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2018 | ALI 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALI 2017 | Cymru 2017 | Ysgol 2018 | ALI 2017 | Cymru 2017 |
| Saesneg | 100 | 86 | 89 | 80 | 92 | 94 | 90 | 89 | 91 |
| Cymraeg | 100 | 85 | 89 | 80 | 90 | 95 | 89 | 87 | 92 |
| Mathemateg | 100 | 89 | 90 | 60 | 92 | 93 | 80 | 90 | 92 |
| Gwyddoniaeth | 100 | 89 | 91 | 80 | 94 | 94 | 90 | 91 | 92 |
| DPC | 100 | 85 | 87 | 60 | 90 | 92 | 80 | 88 | 90 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)




**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ag anghysondebau ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd yn y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol') gan ddisodli'r dyletswyddau ar wahân ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod yr awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o ddylunio polisïau a darparu'r gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

O dan y ddeddfwriaeth, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol i dalu 'sylw dyledus' i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd a rhyw, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hyrwyddo cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd yn y sector cyhoeddus sy'n ymestyn y cwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddyletswydd i dalu 'sylw dyledus' gael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb hefyd yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth hefyd ystyried yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol fel rhan o'r un broses.

**Dull Gweithredu Ceredigion o ran Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl polisïau ac arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos ein bod wedi gwneud hynny, cefnogir y cynnig hwn gan Asesiad Effaith Integredig yr Awdurdod Lleol

| Nodwedd Warchodedig | Effaith | | | Manylion am natur yr effaith |
|---|---|---|---|---|
| | Positif | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |
| **Oedran** | ✓ | | | Bydd yr Ysgol ardal newydd yn derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser.<br>Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |
| **Anabledd** | ✓ | | | Gwell amgylchedd er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anabledd, gan gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail anabledd newydd a Rheoliadau hygyrchedd.<br>Bydd cefnogaeth yn cael ei darparu lle bo angen i arwain disgyblion sydd ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd addas a diogel.<br>Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig |
| **Ailbennu rhywedd / trawsryweddol** | | | ✓ | Bydd unrhyw ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'r polisïau perthnasol. |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | | | ✓ | Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | | | ✓ | Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |
| **Hil** | | | ✓ | Bydd cefnogaeth integreiddio yn cael ei darparu lle bo angen mewn modd addas. |
| **Crefydd neu Gred neu ddi-gred** | | | ✓ | Bydd yr ysgol ardal newydd yn ysgol gymunedol hefyd a bydd yr ysgol yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol fel ar hyn o bryd. |
| **Hunaniaeth rywiol/o ran rhywedd** | | | ✓ | Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y ddarpariaeth a ddarperir.<br>Bydd pob rhanddeiliad a gynhwysir yn y nodwedd warchodedig hon yn cael eu trin yn deg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | ✓ | Bydd pob rhanddeiliad a gynhwysir yn y nodwedd warchodedig hon yn cael eu trin yn deg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. |

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin sy'n seiliedig ar saith o Nodau Llesiant a phum Ffordd o Weithio. Y nod yw cynnal a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu'r anghenion presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**Hirdymor**

| | | |
|---|---|---|
|  | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd | Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Addysg yn y gymuned a sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion i ddiwallu'r anghenion yn awr ac yn y dyfodol. Sicrhau bod y sefydliad addysgol yn addas at y diben ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Unfed Ganrif ar hugain. |

**Atal**

| | | |
|---|---|---|
|  | Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion | Sicrhau dyfodol Addysg hirdymor yn yr ardal. |

**Integreiddio**

| | | |
|---|---|---|
|  | Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae integreiddio cymunedol yn ganolbwynt ar gyfer pob ysgol newydd gan greu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. |

**Cydweithio**

| | | |
|---|---|---|
|  | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant | Cynyddu cydweithio rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod Addysg yn barhaus i bob disgybl ac mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltu ac ymwneud helaeth â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. |

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
|  | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu | Mae'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol ac yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu. |